# Adroddiad Grŵp Prosiect BGC

Paratowyd gan: Kieran Metson a Sara Dafydd

| | |
|---|---|
| **Nod y Cynllun Llesiant** | Bydd pob prosiect peilot sy'n seiliedig ar lefydd yn anelu at fynd i'r afael â'r 6 nod llesiant fel yr amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol 2018-23. Byddai fframwaith yn seiliedig ar lefydd yn blaenoriaethu integreiddio ac yn cynnwys dull cyfannol a dwfn o ymdrin â chydnerthedd cymunedau ac unigolion. |
| **Ein Gwerthoedd** | Y Gymraeg, Taclo Anghydraddoldeb, Cymryd Rhan, Cynaliadwyedd, Arwain drwy Esiampl |
| **Enw'r Grŵp Prosiect** | Gwella Llesiant Cymunedol a Thaclo Tlodi yn Aberteifi |
| **Cadeirydd** | **Hazel Lloyd-Lubran**, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) |

| **Aelodaeth y Grŵp Prosiect** *(Yr enwau mewn **print trwm** oedd yn bresennol yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | **Cynghorydd Elaine Evans**, Llyr Hughes, Cyra Shimell, Non Davies, Meleri Richards, Mari Hopkins, Rob Starr, **Carys Owens**, Cerys Purches-Phillips, Martin Gillard, Catrin George, **Catrin Cond**, **Alison Heal**, Dr Sarah Groves Phillips, Connor Cook, **Bethan James.** Tîm Partneriaethau: **Naomi McDonagh**, **Sara Dafydd,** Lynne Walters, **Kieran Metson** | Tai Wales & West | Rhiannon Ling, Elizabeth Morgan |
| | | CAVO | **Chesca Ross** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Vicki Howell-Williams, **Sue John, Terri-Ann Patrick** | Swyddfa Ben Lake | Carys Lloyd |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | William Bowen, Neil Evans, **Ritchie Felton** | Cyfoeth Naturiol Cymru | Thomas Vetter, **Aled Davies, Rachel Jarvis,** |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Peter Frost, **Sarah Coakham** |
| Barcud Ceredigion | Catrin Owen**, Sue Thomas** | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Megan Harris, **Jan Batty** |
| Cyngor ar Bopeth Ceredigion | Glynis Llewelyn, Rebecca Kirby, Juliet Morris | Land Use Consultants | Nicole Gilbert |

**CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROSIECT**

| **Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect: 05/01/2023** |
|---|
| **9.1 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau:** *Carys Lloyd, Catrin Owen, Catrin George, Glynis Llywelyn, Juliet Morris, Meleri Richards, Non Davies, Sarah Groves-Phillips, Emily Edwards, Cerys Purches-Phillips, Martin Gillard, Vicki Howell-Williams.*<br><br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Grŵp Llywio.<br><br>**9.2 Gosod yr olygfa: Adborth BGC, Diweddariad Cyfrifiad 2021, Diweddariad Cronfa Ffyniant Gyffredin, Canolfannau Cynnes a'r Rhwydwaith Bysiau Lleol**<br>Adroddodd y Cadeirydd fod Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru wedi derbyn cadarnhad fod cyllid wedi'i gymeradwyo ar gyfer y flwyddyn ariannol hon o ran y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Bydd y dyraniad ar gyfer eleni yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cyllid yr Awdurdod Lleol a bydd proses ymgeisio er mwyn Mynegi Diddordeb (yn allanol i Gyngor Sir Ceredigion) ar gael maes o law. Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd y grŵp yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau.<br><br>Rhoddodd y Cadeirydd y diweddaraf am y trafodaethau a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ynghylch yr heriau o ran darparu bysiau yn y sir. Ychydig o ymatebion a gafwyd gan gwmnïau bysiau i gynigion am dendrau, gan arwain at bryder ynghylch darpariaeth a mynediad i'r cyhoedd i wasanaethau gyda'r llwybrau eisoes yn cael cymhorthdal sylweddol. Cynigiodd y Cadeirydd y byddai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn gallu golygu bod y gwaith hwn yn cael ei ystyried yn y dyfodol fel un a ariennir. Cadarnhaodd y Cynghorydd Elaine Evans fod darpariaeth fach o ran bysiau yn broblem sylweddol yn Aberteifi, yn enwedig er mwyn cael mynediad i'r Ganolfan Iechyd a chwmpas y gwasanaeth bysiau ysgol ar rai ystadau. Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd yr adborth hwn yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y BGC. |

DRAFT

**CAM GWEITHREDU: Naomi McDonagh (NMc) i gysylltu â Gareth Lewis (Cydlynydd Amddifadedd a Heriau Gwledig, Cyngor Sir Ceredigion) ac Emily Edwards (Rheolwr Partneriaeth Gymunedol Aberteifi, Cyngor Sir Ceredigion) ynghylch cwmpas y gwasanaethau bysiau.**

Cadarnhawyd bod dros 50 o Fannau Croeso Cynnes ledled Ceredigion, ac mae'r map rhyngweithiol yn cael ei ddiweddaru yn barhaus.

**9.3 Eitem Sefydlog – Diweddariad am y Cynllun Llesiant Lleol a'r ymgynghoriad cyhoeddus – Naomi McDonagh**

Dywedodd NMc fod cyfnod yr ymgynghori ar gyfer y Cynllun Llesiant Lleol drafft yn parhau o hyd a bydd yn dod i ben ar 31 Ionawr 2023. O ran ymgysylltu, dywedodd NMc fod Datganiad i'r Wasg a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol wedi mynd allan a bod rownd ychwanegol o ymgysylltu wedi'i threfnu ar gyfer 17 Ionawr 2023. Mae tudalennau gwe perthnasol, gan gynnwys y safle Ymgyngoriadau ar wefan Cyngor Sir Ceredigion, wedi'u diweddaru, ac mae cydweithwyr o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi derbyn copi o becyn digidol o adnoddau i'w rannu â'u Timau Cyfathrebu eu hunain. Cysylltwyd â chyfanswm o 32 o randdeiliaid i hyrwyddo'r ymgynghoriad ac yn gofyn am iddynt ddosbarthu ymhlith eu rhwydweithiau, gan gynnwys aelodau etholedig a Chynghorau Tref a Chymuned.

Mae copïau papur o'r Cynllun drafft, y ffurflenni ymateb, y fersiynau Hawdd eu Darllen ac i bobl ifanc, yn ogystal â phosteri gyda chodau QR, ar gael hefyd ym mhob un o lyfrgelloedd Ceredigion gan gynnwys faniau'r llyfrgell symudol. Mae copïau papur o'r dogfennau ymgynghori wedi'u dosbarthu yn ogystal i Mirus a Mencap. Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu gan Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru gyda 13 o ysgolion cynradd a thair ysgol uwchradd, a chafwyd adborth ardderchog. Cadarnhaodd NMc fod fersiynau o'r adborth sy'n addas i blant wrthi'n cael eu cynhyrchu ac y gellid rhannu'r dogfennau hyn gyda'r is-grŵp pan fyddant yn barod. Hefyd cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo mewn digwyddiad Pride y Gaeaf LHDTC+ a gynhaliwyd yn Sir Gaerfyrddin. Holodd Alison Heal (AH) pa grwpiau LHDTC+ a oedd ynghlwm wrth ddigwyddiad Pride y Gaeaf, a mynegodd bryderon ynghylch a fyddai'r gymuned LHDTC+ hŷn wedi bod yn ymwybodol ei fod yn digwydd. Cytunwyd y byddai NMc yn rhannu rhagor o fanylion am y digwyddiad gydag AH.

**CAM GWEITHREDU: NMc i rannu â'r is-grŵp yr adborth a gafwyd fel rhan o'r sesiynau ymgysylltu ag ysgolion.**
**CAM GWEITHREDU: NMc i rannu gwybodaeth am ddigwyddiad Pride y Gaeaf ag AH.**

**9.4 Diweddariad prosiectau i ddatblygu Tref Aberteifi ar y cyd â Chyngor y Dref – Catrin George**

Nodwyd bod Catrin George (CG) wedi rhoi ymddiheuriad felly ni chafwyd diweddariad.

**CAM GWEITHREDU: CG i roi diweddariad ar brosiectau i ddatblygu Tref Aberteifi ar y cyd â Chyngor y Dref a hynny yn y cyfarfod nesaf.**

**9.5 Cynllun Lle Aberteifi a'r Cynllun Seilwaith Gwyrdd Aberteifi – Catrin Cond**

Rhoddodd Catrin Cond (CC) ddiweddariad ar Gynllun Lle Aberteifi. Comisiynwyd Rural Office - tan ddiwedd Mawrth - i lunio mapiau A1 amlinellol o bob un o chwe phrif dref Ceredigion ar sail y syniadau a geir yn y Cynlluniau Lle. Gan fod y rhan fwyaf o gynnydd wedi'i wneud yn Llandysul, cadarnhaodd CC fod Rural Office wedi rhannu drafft yn seiliedig ar y syniadau a geir yng Nghynlluniau Lle Llandysul, ac y bydd hyn yn cael ei adolygu a'r adborth yn cael ei anfon erbyn canol mis Ionawr. Unwaith y bydd Rural Office wedi adolygu'r sylwadau gan y Tîm Polisi Cynllunio, bydd y dogfennau'n cael eu rhannu gyda phob Cyngor Tref er mwyn iddynt ystyried unrhyw fylchau a nodir. Gan ddibynnu ar allu Cynghorau Tref i ymateb yn brydlon, dywedodd CC mai'r gobaith yw y bydd y Tîm mewn sefyllfa i gynnwys eu hadborth a dychwelyd drafft cyflawn iddynt.

O ran y Cynllun Seilwaith Gwyrdd, cadarnhaodd CC, fod WSP wedi'u comisiynu, yn unol â gofynion y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol, i baratoi Asesiad Seilwaith Gwyrdd yn 2020 i fwydo i'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd. Archwiliodd yr Asesiad yr asedau seilwaith gwyrdd, nododd gyfleoedd am seilwaith gwyrdd, yn ogystal ag amlinellu argymhellion i lywio'r polisïau yn y CDLl newydd. Fel darn atodol o waith, comisiynwyd Land Use Consultants (LUC) i roi cig ar asgwrn yr Asesiad a grybwyllwyd uchod drwy baratoi Cynlluniau Gweithredu Seilwaith Gwyrdd ar gyfer 6 o brif drefi'r Sir, gyda'r nod o gefnogi'r gwaith o adfywio canol trefi. Ar ôl ymchwil ac ymgynghori mae LUC wedi nodi pum prosiect Seilwaith Gwyrdd a Glas posib ar gyfer pob un o'r trefi. Mae Seilwaith Gwyrdd a Glas yn cyfeirio at y rhwydwaith o fannau gwyrdd a glas mewn ardaloedd gwledig a threfol a'r cyffiniau. Mae iddo bedair egwyddor allweddol: gwneud lle i fyd natur, siapio mannau cyhoeddus ffyniannus, creu cymunedau hapus ac iach, a chryfhau'r gwytnwch i newid hinsawdd.

Mae Cynlluniau Gweithredu Seilwaith Gwyrdd yn nodi pwrpas y darpar brosiectau, a'r partneriaid allweddol ar gyfer cyflawni, a'r costau sydd ynghlwm. Mae'r Cynlluniau Gweithredu yn cynnwys yr egwyddorion 'dylunio strategol' a argymhellir os cyflawnir y prosiectau, ond bydd angen manylion ar gyfer dylunio ac astudiaethau dichonoldeb er mwyn cyflawni'r prosiect. Cadarnhaodd CC nad oedd Cyngor Sir Ceredigion o reidrwydd yn bwrw ymlaen â'r prosiectau a ddisgrifiwyd, ac nad oedd cyllid sicr ar gael i wneud hynny – nod y Cynlluniau Gweithredu yw darparu gwybodaeth gychwynnol i bartïon sydd â diddordeb ac sydd eisiau symud rhai o'r prosiectau hyn yn eu blaen, ac sydd angen gwybodaeth ategol fel rhan o'r broses o wneud cais am gyllid. Dyma'r pum prosiect a gyflwynwyd ar gyfer Aberteifi:

*Prosiect 1: Llwybr y Dwrgi, Aberteifi*

Nod y prosiect hwn yw gwella'r cysylltiad gydag afon Teifi, cynyddu'r bioamrywiaeth drwy blannu ar lan yr afon a hybu ansawdd y mannau gwyrdd ar lan yr afon. Hefyd annog cerdded i fannau gwyrdd lleol. Drwy wella'r strimyn o fannau gwyrdd ar hyd yr afon (y Cei, maes parcio'r Strand a Stryd y Cei) mae'r prosiect yn ceisio gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd greu cysylltiadau gwyrdd.

*Prosiect 2: 'Bwyd i Bawb' - Tyfu Bwyd yn Gymunedol*
Nod y prosiect hwn yw annog tyfu a rhannu bwyd yn gymunedol, a chreu rhwydwaith hwyliog o blannu cynnyrch bwytadwy yng nghanol y dref a chymunedau mwy difreintiedig. Mae maes parcio 4CG wedi ei ystyried fel lleoliad posib.

*Prosiect 3: Perllan Netpool a Glan yr Afon*
Nod y prosiect yma yw cynyddu bioamrywiaeth a ehangu'r defnydd cymunedol a wneir o Barc y Netpool.

*Prosiect 4: Gwlyptir Mwldan*
Nod y prosiect yma yw gwella iechyd glan afon Mwldan er mwyn creu cynefin gwlyb a fydd yn gwella bioamrywiaeth ac yn lleihau'r risg o lifogydd yn Aberteifi. Hefyd bydd modd defnyddio'r gwlyptir fel adnodd llesiant ar gyfer y gymuned leol.

*Prosiect 5: Gwyrddu Canol Tref Aberteifi*
Nod y prosiect yma yw plannu nodweddion sy'n gyforiog o natur ledled canol tref Aberteifi a fydd yn cysylltu bioamrywiaeth a chysgod coed ac yn gwella'r profiad o ymlwybro drwy'r dref ac o ddefnyddio'r dref.

Awgrymodd Elaine Evans (EE) y gallai'r Strand fod yn lleoliad ar gyfer gardd gymunedol ar gyfer pobl rhannol ddall, a allai gyd-fynd â gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru ar amddiffynfeydd rhag llifogydd yn yr ardal hon. Cefnogodd RJ y syniad yma a chytunodd i wneud ymholiadau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ynghylch diweddariadau am y Strand.

**9.6 Ymagwedd arfaethedig Cyfoeth Naturiol Cymru at ymgynghoriad y Cynllun Llesiant Lleol – Rachel Jarvis**
Rhoddodd Rachel Jarvis (RJ) gyflwyniad ar broses ymgynghori a chymeradwyo Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Gan fod angen i Fwrdd CNC gymeradwyo a llofnodi 14 o Gynlluniau Llesiant y byrddau gwasanaethau cyhoeddus (BGC) ledled Cymru, dyfeisiwyd fframwaith cenedlaethol i lywio ymatebion i'r ymgynghori a gwneud argymhellion clir i'r BGC. Cafodd copi o'r ymateb drafft ei gylchredeg ymhlith aelodau'r grŵp er mwyn iddynt eu hystyried cyn y cyfarfod, a chroesawyd sylwadau, cwestiynau neu adborth. Esboniodd RJ fod yr ymateb wedi'i strwythuro gan ddefnyddio Fframwaith Cenedlaethol CNC, a bod pum categori allweddol wedi'u defnyddio er mwyn adolygu pob un o'r Amcanion Llesiant. Nod y dull yw hwyluso'r broses o gael Bwrdd CNC i gymeradwyo'r Cynllun, a sicrhau bod y sefydliad, law yn llaw â phartneriaid, yn gallu cyflawni'r amcanion a nodir.

Cafwyd trosolwg o'r ymateb drafft gan RJ, gan gynnwys Adborth CNC, y Dyheadau ar gyfer Cyflawni Cynlluniau Llesiant yn y Dyfodol, a Chyfraniadau CNC ar sail pob Amcan arfaethedig. Cododd AH bryderon ynghylch cysoni'r Cynllun Llesiant gyda Bargen Twf Canolbarth Cymru ac ystyriodd fod y cyfleoedd a amlinellir yn y Cynllun am Geredigion gwyrddach yn fwy uchelgeisiol na rhai'r Fargen Twf. Cafwyd adborth o ran y derminoleg a ddefnyddiwyd mewn rhannau o'r ymateb, a nododd y Cadeirydd mor bwysig yw sicrhau bod yr iaith yn briodol ar gyfer y BGC a Bwrdd CNC, yn ogystal ag ar gyfer pobl Ceredigion. Cafwyd trafodaeth helaeth ynghylch y cyfeiriad at ansawdd dŵr a llygredd ffosffad. Cytunwyd y byddai maes cyffredinol ansawdd dŵr yn cael ei gadw gan y byddai hyn yn cynnig modd o ystyried materion eraill yn ymwneud â dŵr megis yr amgylchedd morol. Dywedodd RJ y byddai CNC mewn sefyllfa dda i arwain ar Asesiad o Risg a Chyfleoedd Hinsawdd er mwyn llywio sut i addasu ar gyfer yr hinsawdd yng Ngheredigion.

Unwaith y bydd 3 is-grŵp y BGC wedi cael cyfle i ystyried yr ymateb drafft a chyflwyno unrhyw gwestiynau neu adborth, bydd y ddogfen yn cael ei diwygio a'i chyflwyno fel ymateb terfynol i'r BGC.

**9.7 Cyllid Grant Cymunedau Gwydn Canolbarth Cymru – Aled Davies a Sarah Coakham**

Rhannodd Aled Davies (AD) a Sarah Coakham (SC) gyflwyniad ar brosiectau a ariennir gan grantiau gyda phwyslais ar adeiladu cymunedau gwydn drwy gynyddu ymwneud y gymuned â natur i wella iechyd, llesiant a gwytnwch. Yn dilyn o'r Datganiadau Ardal a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020, adroddodd AD fod y pwyslais wedi esblygu i ystyried y blaenoriaethau ar ôl y pandemig ar gyfer yr amgylchedd ledled Canolbarth Cymru, yn enwedig galluogi a grymuso cymunedau i ddatblygu eu gwytnwch eu hunain yn ogystal â chefnogi syniadau newydd ynghylch datblygu atebion ar sail natur. Fel rhan o broses CNC o ymgeisio am grantiau, gofynnwyd i ymgeiswyr ystyried Cynlluniau Llesiant ac Asesiadau Llesiant y BGC er mwyn deall y materion a'r blaenoriaethau sy'n benodol i'w cymunedau lleol.

Mae dau brosiect a ariennir o'r canolbarth (Ceredigion a Phowys) – prosiect Tir Coed - AnTir - a'r Bartneriaeth Awyr Agored. Mae prosiect AnTir Tir Coed yn cysylltu â phrif thema'r Datganiad Ardal, sef Ailgysylltu Pobl a Lleoedd drwy gydweithio, rhagnodi cymdeithasol a datblygu sylfaen dystiolaeth o ran iechyd. Nod y prosiect yw gwella llesiant, sgiliau, ymwneud cymdeithasol, cysylltiad â natur a'r ymwybyddiaeth o newid hinsawdd ymhlith pobl nad ydynt fel arfer yn ymwneud â natur yng Ngheredigion a Phowys. Dywedodd AD y byddai Coed Lleol yn barod i fynychu cyfarfod yn y dyfodol i gyflwyno rhagor o wybodaeth am brosiect AnTir.

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn uwchsgilio gweithwyr proffesiynol iechyd, gofal cymdeithasol ac awyr agored, i ymgysylltu â phobl sydd ag amrywiol anawsterau iechyd, corfforol a meddyliol. Mae'r rhaglenni ymyrraeth yn bwriadu mynd â grwpiau i leoliadau awyr agored mewn ffordd ddiogel a chyfrifol, ac yn ceisio cyfrannu tuag at newid ymddygiad yn hirdymor er mwyn

DRAFT

lleihau'r dibyniaeth ar wasanaethau iechyd, gwella'r cysylltiad â natur a lleihau unigedd cymdeithasol. Rhannodd AD a SC wefan ariannu Cyngor Cymdeithasau Gwirfoddol Cymru (WCVA) a manylion cylchlythyr cyllido Cyfoeth Naturiol Cymru.

**CAM GWEITHREDU: Aelodau'r is-grŵp i gysylltu â grantiau.strategol@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk os ydynt am dderbyn cylchlythyr cyllido Cyfoeth Naturiol Cymru.**

**<u>9.8 Unrhyw Ddiweddariadau Pellach gan Bartneriaid –</u>** Pawb

Rhoddodd y Cadeirydd fraslun o ddiweddariad ystadegol a ddarparwyd gan Caitlin Theodorou (CT) cyn y cyfarfod parthed gwybodaeth ychwanegol ynghylch Cyfrifiad 2021 a'i oblygiadau i Aberteifi. Os nad oedd data ar gael ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) defnyddiwyd data'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOA) (y ffigwr ar gyfer Aberteifi ac Aberporth).

**Census 2021 Key Headlines for Cardig**

**CAM GWEITHREDU: Rob Starr (RS) i adolygu'r Adroddiad Sylfaen ar gyfer Aberteifi a rhoi diweddariad yn y cyfarfod nesaf.**

**<u>Unrhyw Fusnes Arall</u>**

Ni chodwyd rhagor o faterion.

**Cyfarfod nesaf:** 18 Ebrill 2023 am 10:00-12:00

DRAFT